**Teitl y Swydd:** **Hyfforddwr Ffitrwydd**

**Sefydliad:** **Gwella Cymru**

**Yn atebol i'r:** **Goruchwyliwr Ffitrwydd**

**PRIF BWRPAS/RHESWM DROS Y SWYDD**
Darparu cyfarwyddyd arbenigol, datblygu rhaglenni hyfforddiant ffitrwydd, cynnal ymgynghoriadau ffitrwydd a darparu cyngor ar fyw'n iach a fydd yn gwella ffitrwydd ac ansawdd bywyd trigolion Sir y Fflint. Cyrraedd targedau gwerthiant ac incwm aelodaeth trwy gyflawni holl dargedau gwerthiant aelodaeth a strategaeth brisio (misol).

**PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Darparu gwybodaeth gywir i ddarpar aelodau am gyfleusterau ffitrwydd, offer, rhaglenni, gweithdrefnau a phrisiau.

2. Recriwtio aelodau newydd er mwyn cyrraedd targedau aelodaeth ac incwm.

3. Creu ymwybyddiaeth o'r ystafell ffitrwydd o fewn y dalgylch lleol, a hyrwyddo a marchnata'r cyfleusterau yn y ganolfan i gyrraedd targedau gwerthiant ac incwm; cymryd rhan weithredol yn yr holl hyrwyddiadau marchnata, digwyddiadau a heriau cwsmeriaid i gynyddu incwm.

4. Gweithio fel rhan o dîm a darparu cyfathrebu ac arweiniad parhaus i aelodau'r ganolfan.

5. Ymdrechu i gyrraedd targedau gwerthiant unigol a thîm bob mis.

6. Cynnal ymgynghoriadau ffitrwydd, sesiynau cyflwyno, adolygiadau a dyfeisio rhaglen hyfforddi effeithiol sy'n benodol ar gyfer nodau hyfforddi cleientiaid fel rhan o siwrnai unigryw aelodau Gwella.

7. Gwneud tasgau gweithredol dyddiol, er enghraifft, agor a chau'r ystafell ffitrwydd, cyfathrebu gyda chwsmeriaid ynghylch materion gweithredol, a sicrhau bod yr offer ffitrwydd yn weithredol ac mewn cyflwr da gan ddweud wrth y cyflenwr priodol ynglŷn ag unrhyw ddiffygion.

8. Rhoi cyngor i gleientiaid, aelodau o'r cyhoedd a phlant (trwy'r sesiynau ffitrwydd iau) ar bob agwedd ar fyw'n iach.


9. Cynnal sesiynau ymarfer corff, e.e. hyfforddiant cylchedau, hyfforddiant swyddogaethol, dosbarthiadau aerobeg/step a sesiynau hyfforddi personol.

10. Monitro’r dderbynfa ochr yn ochr ag Ymgynghorwyr Cwsmeriaid, cymryd archebion ac ateb y ffôn mewn perthynas ag unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r ystafell ffitrwydd.

11. Rhyngweithio â'r holl aelodau ffitrwydd, gan gynnig cyngor, hyfforddiant ac anogaeth i gynorthwyo cwsmeriaid i gyrraedd eu nodau.

12. Sicrhau bod yr holl offer yn lân, wedi eu cynnal yn dda ac yn ddiogel i bobl eu defnyddio; cadw at holl bolisïau iechyd a diogelwch i ddarparu amgylchedd diogel i gwsmeriaid.

**STRWYTHUR SEFYDLIADOL**



**GWYBODAETH A SGILIAU**

| Maes | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|
| Cymhwyster<br>- Cymhwyster Hyfforddiant Campfa Lefel 2 neu gyfwerth<br><br>- Cymhwyster dosbarth ffitrwydd / ymarfer corff<br><br>- Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn y diwydiant iechyd a ffitrwydd<br><br>- Cymorth Cyntaf yn y Gweithle<br><br>- Cymhwyster Lefel 3 Hyfforddwr Uwch (neu'n gweithio tuag ato) | H<br><br>H<br><br>D<br><br>D<br><br>D | Ffurflen Gais<br><br>Ffurflen Gais<br><br>Ffurflen Gais<br><br>Ffurflen Gais<br><br>Ffurflen Gais |
| Gwybodaeth<br>- Profiad yn y diwydiant ffitrwydd<br><br>- Gwybodaeth a dealltwriaeth o dueddiadau ffitrwydd cyfredol a dulliau effeithiol o gyfathrebu â chwsmeriaid e.e. cyfryngau cymdeithasol | H<br><br>H | Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau<br>- Sgiliau gofal cwsmer a rhyngbersonol ardderchog i gadw cwsmeriaid presennol a denu cwsmeriaid newydd<br><br>- Gweithio mewn tîm - gallu gweithio gydag eraill i feithrin deinamig tîm ac awyrgylch da yn yr ystafell ffitrwydd<br><br>- Gwybodaeth ymarferol dda am Outlook, Word, Excel a systemau meddalwedd rheoli hamdden<br><br>- Ymwybyddiaeth o farchnata - cadw cwsmeriaid, technegau gwerthu, cynhyrchu arweiniad, ymholiadau ffôn | H<br><br>H<br><br>D<br><br>D | Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| <u>Arall</u><br>- Ymwybyddiaeth o, ac empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymru<br><br>- Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch | H<br><br>D | Ffurflen Gais / Cyfweliad<br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad |